# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies a W.T. Evans

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyol
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell y Cadeirydd - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.05 - 2.15 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION

### 3.1. 11EG MEHEFIN, 2019 (10 Y.B)

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Mehefin 2019 (10yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

### 3.2. 11EG MEHEFIN, 2019 (10:15 Y.B)

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Mehefin 2019 (10:15yb) gan eu bod yn gofnod cywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD A.M.S YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL,** yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch

unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd megis cyfeiriad ac o bosibl gwybodaeth a allai ddatgelu pwy oedd y teulu. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Dywedwyd wrth y Panel bod gwybodaeth newydd wedi dod i law ers penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 wrthod darparu cludiant ac ers cyhoeddi agenda'r cyfarfod hwn o ran yr apêl i ganiatáu cludiant am ddim i'r ysgol i A.M.S.

**PENDERFYNWYD, o ystyried y wybodaeth newydd ac yn unol â Gweithdrefn yr Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, fod yr apêl i roi cludiant ysgol am ddim i A.M.S. yn cael ei hatgyfeirio'n ôl i Banel Adolygu Cam 1 er mwyn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**